# Coronafeirws (COVID-19) a sefydlu statudol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru: Canllawiau dros dro

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2020

## Cyflwyniad

Rydym yn cydnabod y bydd athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru yn pryderu, wrth reswm, am effaith bosibl Coronafeirws (COVID-19) ar eu cyfnod sefydlu statudol. Datblygwyd y canllawiau isod i gefnogi athrawon newydd gymhwyso a'u hysgolion yn ystod y cyfnod hwn, ac i ddarparu ffordd ymlaen i athrawon newydd gymhwyso sy'n ymgymryd â sefydlu.

## Gofynion presennol

Mae'n ofynnol i athrawon newydd gymhwyso sy'n ymgymryd â sefydlu statudol mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru gwblhau tri thymor ysgol neu gyfwerth. Rhaid i athrawon newydd gymhwyso nad ydynt yn cael eu cyflogi'n amser llawn gwblhau 380 o sesiynau ysgol.

Disgwylir i bob athro newydd gymhwyso (ANG) gasglu tystiolaeth gydol eu cyfnod sefydlu i ddangos eu cynnydd er mwyn bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ac i alluogi asesiad ar ddiwedd y cyfnod sefydlu. Cofnodir y dystiolaeth yn eu proffil sefydlu ar-lein sydd ar gael yn y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg yn https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/.

Mae'r proffil sefydlu yn rhoi ffocws pwysig wrth hunan-adolygu a thrafod gyda'r Mentor Sefydlu a'r Gwiriwr Allanol er mwyn sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso yn ymwybodol o'r meysydd y dylent eu blaenoriaethu ar gyfer dysgu proffesiynol pellach. Mae hefyd yn ffurfio'r rhan helaeth o'r dystiolaeth sy'n cael ei hystyried yn yr asesiad terfynol a'r cymedroli ar ddiwedd y cyfnod sefydlu.

## Gofynion diwygiedig

### Beth i'w wneud tra bod ysgolion ar gau

Mae ysgolion bellach ar gau i blant a phobl ifanc, ac eithrio darparu gofal i nifer cyfyngedig o blant.

Dylai pob ANG barhau i adolygu ei gynnydd hyd yma yn erbyn lefel sefydlu'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Dylai pob ANG ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol, fel dysgu o bell drwy Hwb neu blatfformau eraill er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodwyd. Bydd consortia rhanbarthol yn cysylltu ag athrawon newydd gymhwyso yn fuan wedi gwyliau'r Pasg i ddelio ag ymholiadau ac i ddarparu cyfleoedd i athrawon newydd gymhwyso barhau i ddatblygu tra bod ysgolion ar gau. Mae manylion cyswllt y consortia rhanbarthol isod.

Dylai pob ANG wneud pob ymdrech i ymgymryd â dyletswyddau addysgu o bell, yn unol â chyfarwyddyd yr ysgol, a pharhau i gofnodi unrhyw gyfnodau o addysgu a gyflawnir yn ei broffil sefydlu ac i ddatblygu templedi profiadau yn ei PDP.

Rhaid i athrawon newydd gymhwyso sy'n ymgymryd â sefydlu drwy gyflenwi byrdymor sicrhau bod eu hasiantaeth cyflenwi yn gwirio unrhyw sesiynau a gyflawnwyd, os nad yw ysgolion yn gallu gwneud.

Anogir athrawon newydd gymhwyso i ymgymryd â chyfnod o addysgu neu ddysgu proffesiynol cyfwerth â 60 sesiwn/chwech wythnos yn ystod gweddill y flwyddyn ysgol er mwyn cwblhau eu cyfnod sefydlu.

Gall unrhyw athrawon newydd gymhwyso sy'n parhau i weithio mewn ysgol i ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol gofnodi'r sesiynau hynny yn eu proffil sefydlu, a byddant yn cael eu cyfrir tuag at y cyfnod sefydlu.

Bydd ffurflen Parhad Addysgu a Dysgu ar gael drwy'r PDP i athrawon newydd gymhwyso gofnodi unrhyw ddysgu proffesiynol neu addysgu a wneir yn ystod y cyfnod hwn. Gofynnir i athrawon newydd gymhwyso gofnodi unrhyw weithgaredd a wneir fesul awr, bydd 3 x 1 awr o weithgareddau yn cyfrif fel sesiwn. Dylid llwytho ffurflenni wedi'u cwblhau i'r PDP a'u hanfon drwy e-bost i Gyngor y Gweithlu Addysg gan ddefnyddio'r manylion cyswllt.

### Absenoldeb

Gall **athrawon newydd gymhwyso sydd ar hyn o bryd yn ymgymryd â sefydlu ar sail amser llawn** gofnodi absenoldeb hyd at 30 diwrnod ysgol (sy'n gyfwerth â chwech wythnos) a chwblhau eu cyfnod sefydlu yn llwyddiannus, ar yr amod bod tystiolaeth eu bod wedi bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Caniateir i **athrawon newydd gymhwyso sy'n ymgymryd â sefydlu ar sail rhan amser neu gyflenwi**, sydd hyd at 4 Ebrill wedi cwblhau a chofnodi 300 sesiwn, gofnodi absenoldeb hyd at 60 sesiwn (sy'n gyfwerth â 6 wythnos) ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019/20 yn unig.

Bydd cofnodi absenoldeb yn y ffordd hwn yn rhoi'r cyfle i athrawon newydd gymhwyso  gyflwyno'u proffil sefydlu ar gyfer asesiad y flwyddyn academaidd hon, er bod ysgolion ar gau. Dylid cofnodi absenoldeb ar y Ffurflen Parhad Addysgu a Dysgu, ei llwytho i'r PDP a'i hanfon trwy e-bosti i Gyngor y Gweithlu Addysg.

Anogir pob ANG, yr oedd disgwyl iddo gwblhau ei gyfnod sefydlu erbyn diwedd tymor yr haf, geisio cwblhau ei broffil sefydlu erbyn hanner tymor y Sulgwyn ac yna gofnodi'r absenoldeb ar gyfer gweddill tymor yr haf. Bydd hyn yn caniatáu i Wirwyr Allanol a Chyrff Priodol asesu'r dystiolaeth a ddarparwyd yn eich proffil a gwneud argymhelliad ar ganlyniad y cyfnod sefydlu (llwyddo, methu, ymestyn). Bydd yr argymhelliad hwn yn destun cymedroli cenedlaethol yn y ffordd arferol, er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch i bob ANG (gweler yr adran isod).

### Rôl Gwirwyr Allanol a Mentoriaid Sefydlu tra bod ysgolion ar gau

Mae gofynion sefydlu statudol fel arsylwadau ac ymweliadau gan wirwyr allanol wedi'u canslo tra bo ysgolion ar gau.

Yn ystod y cyfnod hwn dylai gwirwyr allanol a / neu mentoriaid sefydlu barhau:

- i gynnal sgyrsiau proffesiynol gydag athrawon newydd gymhwyso dros y ffôn neu ar-lein
- cytuno targedau gyda'u hathrawon newydd gymhwyso

- cwblhau eu hargymhellion terfynol i’r Cyrff Priodol ar ôl hanner tymor y Sulgwyn.

**Trefniadau asesu’r cyfnod sefydlu a dyfarnu estyniad**

Bydd y broses o asesu ar ddiwedd cyfnod sefydlu yn aros fel yr amlinellir yn y canllaw presennol[1].

Pe bai Corff Priodol yn penderfynu bod angen mwy o gefnogaeth ar athrawon newydd gymhwyso cyn iddynt gwblhau eu cyfnod sefydlu yn llwyddiannus, bydd estyniad yn cael ei roi a chaiff hyd yr estyniad ei benderfynu gan y Corff Priodol.

Mae’n bosibl na fydd gan athrawon newydd gymhwyso, y mae gofyn iddynt ymestyn eu cyfnod sefydlu o dan yr amgylchiadau hyn, gyflogaeth barhaus. Mewn achosion o’r fath, cyfrifoldeb yr athrawon newydd gymhwyso yw canfod swydd addysgu arall er mwyn cwblhau’r cyfnod sefydlu. Nid oes dyddiad terfyn ar yr amser y caiff athrawon newydd gymhwyso i ganfod swydd addysgu arall.

## Cyngor pellach a manylion cyswllt

Mae pob arweinydd sefydlu’r consortia, pob corff priodol a Chyngor y Gweithlu Addysg yn ymwybodol o’r newidiadau hyn. Hysbyswyd asiantaethau cyflenwi ac undebau’r gweithlu addysg o’r newidiadau dros dro hyn hefyd.

Os oes gan ysgolion ymholiadau ynghylch cyllid sefydlu, e-bostiwch Gyngor y Gweithlu Addysg drwy professionaldevelopment@cga.cymru

Dylai athrawon newydd gymhwyso e-bostio’u Ffurflen Parhad Addysgu a Dysgu i professionaldevelopment@cga.cymru

Manylion cyswllt y consortia:

| | |
|---|---|
| Consortium Canolbarth y De | Mandy Esseen: mandy.esseen@cscjes.org.uk<br>Heather Jones: Heather.Jones@cscjes.org.uk |
| Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg | Deb Woodward: deb.woodward@sewaleseas.org.uk<br>Hannah Barry: Hannah.Barry@sewaleseas.org.uk |
| ERW | Sarah Perdue: sarah.perdue@erw.cymru |
| GwE | Ieuan Jones: ieuanjones@gwegogledd.cymru |

Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt awdurdodau lleol o fewn GwE ac ERW yn https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/cyfnod-ymsefydlu/#manylion-cyswllt

Mae rhagor o wybodaeth am rôl ysgolion yn ystod y pandemig COVID-19 ar gael yn https://llyw.cymru/sut-y-bydd-ysgolion-yn-gweithio-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws

**Noder y gallai fod angen adolygu'r canllaw hwn pe bai amgylchiadau'n newid yn sylweddol yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.**

[1] *Ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru* (2017) https://hwb.gov.wales/storage/9b361366-fec4-4ceb-9a9f-79144aa14518/ymsefydlu-ar-gyfer-athrawon-newydd-gymhwyso-yng-nghymru.pdf (T.12)